

# GWEITHIO GYDA'N GILYDD AM DDYFODOL DISGLEIRIACH

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG



**Uchelgais** — Meddwl yn flaengar, croesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol

**Agored** — Bod yn agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.

**Cydweithio** — Fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parchu amrywiaeth ac wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon.

**Balchder** — Rydyn ni'n ymfalchïo ym Mro Morgannwg, ac yn falch o wasanaethau'n cymunedau a bod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.


@VOGCouncil
c1v@valeofglamorgan.gov.uk


Mae ein Cynllun Corfforaethol yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a sut y byddwn yn eu cyflawni.

## AMCAN 1

### GWEITHIO GYDA, A THROS EIN CYMUNEDAU

Rydym eisiau eich cynnwys chi a rhoi gwybod i chi am ein gwaith. Rydym eisiau newid y ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Rydym eisiau darparu gwasanaeth cwsmeriaid da sy'n bodloni gwahanol anghenion. Rydym am i fwy o bobl siarad Cymraeg. Rydym am i'n staff a'n Haelodau allu gwneud eu gorau.

## AMCAN 2


### CEFNOGI DYSGU, CYFLOGAETH A THWF ECONOMAIDD CYNALIADWY

Rydym eisiau sicrhau bod pob person yn cael y cyfle i ddysgu mewn amgylcheddau modern.
Rydym eisiau rhoi cefnogaeth, cyngor a chyfleoedd i bobl i'w helpu gyda swyddi, arian a sgiliau. Rydyn ni eisiau helpu pobl i wirfoddoli. Rydym eisiau gwneud y Fro yn lle gwell i fyw, gweithio a theithio ynddi.

## AMCAN 3

### CYNORTHWYO POBL GARTREF AC YN EU CYMUNED

Rydym eisiau i bawb fyw bywydau iach ac egniol ac am annog cerdded a beicio. Rydym am i bawb fwynhau hamdden, y celfyddydau a diwylliant. Rydym am wneud yn siwr bod pawb yn cael y cymorth a chefnogaeth y mae eu hangen arnynt. Rydym eisiau cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau a chael mynediad at dai o safon.



## AMCAN 4

### PARCHU, GWELLA A MWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD

Rydym eisiau gofalu am a gwarchod ein hamgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn cydweithio ag eraill i gynnal cyfleusterau lleol megis tai bach cyhoeddus, parciau a mannau chwarae. Byddwn yn lleihau gwastraff ac yn gostwng ein hallyriadau carbon ac yn lleihau'r effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Byddwn yn gweithio i leihau llygredd a llifogydd.



## PUM FFORDD O WEITHIO

Drwy ymsefydlu'r pum ffordd o weithio mae'r Cyngor yn gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf yw:

- Hirdymor
- Cynnwys
- Integredig
- Cydweithredu
- Hatal

## NODAU LLES CENEDLAETHOL

Noda'r tabl isod y saith nod lles cenedlaethol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni'n effeithiol i:


| | |
|---|---|
| Cymru Lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru Gardarn | Cenedl sy'n cynnal a yn gwella amgylchedd natriol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu iaddasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru Iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru fwy Cydradd | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o Gymunedau Gydlynol | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru o Ddiwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg yn ei Phrifiant | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru Gyfrifol | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai hyn gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

### CYLLIDEB GWARIANT

Yn 2019/20 cafodd ein cyllideb ei rhannu ar draws y meysydd canlynol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

| Maes | Cyfran |
|---|---|
| Addysg | 51% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 32% |
| Amgylchedd a Thai | 15% |
| Cynllunio ac adfywio | 2% |

### CYNLLUNIO INTEGREDIG




Mae cynllunio integredig yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r ffordd rydym yn gweithio drwy sefydlu Bwrdd Mewnwelediad y Cyngor

### WRTH DDATBLYGU'R CYNLLUN CORFFORAETHOL HWN A'N BLAENORIAETHAU DROS Y PUM MLYNEDD NESAF RYDYM WEDI YSTYRIED:

- beth mae ein **trigolion** wedi dweud wrthym
- **ymrwymiadau** a wnaethom i gyflawni gyda'n partneriaid e.e. Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Ardal Caerdydd a'r Fro
- ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r **ardal leol a'r gymuned leol**
- **arfer gorau** a'r hyn y gwyddom sy'n gweithio'n lleol
- ein **dyletswyddau statudol**
- barn **ein partneriaid**
- ein **Cynllun Cydraddoldeb strategol** sydd wedi'i ddatblygu'n gyfochrog
- yr **adnoddau sydd ar gael i ni**
- **ein cyflawniadau** wrth gwblhau'r Cynllun Corfforaethol diwethaf
- **cyngor a chymorth** gan Gomisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, y Gymraeg, Plant, Pobl Hŷn, a Chydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- **cyngor ac argymhellion** gan ein rheoleiddwyr a'n harolygwyr

Mae'r Cynllun yn rhedeg o 2020-2025 a phob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r hyn rydym wedi'i gyflawni, meysydd sy'n peri pryder a sut rydym wedi cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Byddwn hefyd yn cynhyrchu Cynllun Cyflawni Blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf i wneud cynnydd pellach i gyflawni ein hamcanion.